SAFLE MOROL EWROPEAIDD
BAE AC ABEROEDD CAERFYRDDIN

yn cynnwys

Ardal Cadwraeth Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin

Ardal Gwarchodaeth Arbennig a Safle Ramsar Moryd Byrri

Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Caerfyrddin

GWEITHIO DRAFFT

CYNLLUN RHEOLI

Cynhyrchwyd gan Blaise Bullimore, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin,
ar ran Grŵp Awdurdodau Perthnasol SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin

Ionawr 2013

(gyda diwygiad i ddarparu ar gyfer creu Cyfoeth Naturiol Cymru a diddymu o Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Ebrill 2013)

www.cbeems.org.uk

Pwrpas y cynllun rheoli hwn

1 Mae Safle Morol Ewropeaidd (SME) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn rhan o gyfres o ardaloedd cadwraeth yn ymledu ar draws Ewrop, sef rhwydwaith *Natura 2000*, a ddynodwyd o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr Undeb Ewropeaidd [1]. Mae'r dynodiad hwn yn rhoi cyfrifoldebau statudol ar gyrff cyhoeddus i ddiogelu buddiannau cadwraeth natur y safle ac ar Lywodraeth y DU i sicrhau fod gofynion y Cyfarwyddebau'n cael eu cyflawni a bod safleoedd yn cael eu rheoli'n briodol.

2 Mae'r awdurdodau perthnasol o ran y safle hwn wedi cydgynhyrchu'r cynllun rheoli hwn i gyfrannu at gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Y weledigaeth i Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yw amgylchedd morol o safon, lle mae cynefinoedd a rhywogaethau'r safle mewn cystal os nad gwell cyflwr â phan gafodd y safle ei ddewis, lle mae gweithgareddau dyn yn cyd-fyw mewn cytgord â chynefinoedd a rhywogaethau'r safle a lle mae'r amgylchedd morol yn yr SME yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy.

3 Mae'r cynllun rheoli hwn yn pennu'r fframwaith y caiff gweithgareddau sy'n effeithio ar SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin mae angen eu rheoli; mae'n cyfrannu at gyflawni'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar ac at gyflawni gofynion Rheoliadau Cynefinoedd y DU. Mae rheolaeth y safle hefyd yn cyfrannu at gyflawni rhwymedigaethau eraill ar lefel y DU megis confensiwn OSPAR a chyfarwyddebau UE eraill, fel Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol [2].

4 Cafodd y cynllun ei ddatblygu i:

- wella'r rheolaeth bresennol, cyd-drefnu gwaith yn well rhwng cyrff rheoli a helpu gyda phenderfyniadau;
- archwilio ac asesu'r pwysau a'r bygythiadau sy'n debygol o effeithio ar y nodweddion dynodedig;
- nodi ble mae angen rhagor o wybodaeth a / neu weithredu i reoli gweithgareddau er mwyn lleihau eu heffaith;
- rheoli monitro o'r safle
- casglu a choladu gwybodaeth am weithgareddau sy'n digwydd o fewn y safle
- codi ymwybyddiaeth o'r safle ac annog cefnogaeth i'w rheoli at ddibenion cadwraeth.

5 Cyfrifoldeb yr awdurdodau perthnasol fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd yw sefydlu a gweithredu'r cynllun. Mae dyletswydd ar yr awdurdodau hyn i gydweithio fel y Grŵp Awdurdodau Perthnasol (GAP). Mae'r cynllun hwn yn fynegiant o'u hymrwymiad i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'u cyfrifoldeb cyfun i wireddu'r weledigaeth i'r safle.

6 Mae'r cynllun yn disgrifio'r EMS, y pwysau arno a'r cyfrifoldebau ar gyfer ei reoli. Mae'n nodi'r dull o ei reoli a'r camau gweithredu angenrheidiol i awdurdodau perthnasol. Mae hefyd yn nodi'r gweithgareddau destun rheoleiddio a rheoli gan awdurdodau cymwys y bernir gan y RAG i fynnu gwell rheolaeth er mwyn galluogi'r safle i gwrdd ag amcanion y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar pwysau sy'n achosi. Mae'n fframwaith tymor hir a gaiff ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiwygio yn ôl y gofyn.

7 Yn ogystal â chyflawni gofynion cadwraeth y safle, rhaid i'r gwaith rheoli roi sylw priodol hefyd i ofynion cadwraeth safleoedd eraill *Natura 2000* cyfagos a gwarchod rhywogaethau sydd wedi'u rhestru o dan *Natura 2000* pa un a ydynt o fewn ardaloedd gwarchodaeth dynodedig ai peidio.

8 Mae llwyddiant y cynllun hwn yn ddibynnol nid yn unig ar yr awdurdodau statudol a'u mesurau rheoli ond hefyd ar yr holl randdeiliaid ar y safle; mae gan bawb ran i'w chwarae yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion cadwraeth yr SME ym mhopeth a wnânt.

Ychwanegu gwerth drwy gydweithrediad GAP:

- rhannu trosolwg o'r rheolaeth ar yr SME a'i anghenion rheoli
- atebion a rennir i faterion traws-sector
- codi ymwybyddiaeth gyhoeddus a dealltwriaeth o werth cadwraethol a rheolaeth yr SME mewn ffordd effeithlon ac integredig
- cyswllt integredig â rhanddeiliaid a'r cyhoedd
- adnoddau gwybodaeth yn cael eu rhannu, cyfathrebu agored a gwybodus
- monitro effeithlon ar ganlyniadau rheoli'r safle yng nghyd-destun amcanion cadwraeth yr SME, a chvflwvno adroddiadau

Ceir rhagor o fanylion am y cefndir deddfwriaethol yn Atodiad Technegol 1: *Y Cefndir*.

Cyfrifoldebau rheoli

9 Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau Cynefinoedd ac Adar yn gorffwys gyda llywodraethau'r DU a Chymru, ond y dasg o sicrhau rheolaeth cadwraeth safleoedd unigol yn rhannol dirprwyo i awdurdodau perthnasol. Mae'r awdurdodau perthnasol yn atebol yn unigol am gyflawni'u rhwymedigaethau penodol eu hunain ac yn gydgyfrifol am y cynllun rheoli.

10 Mae'r awdurdodau perthnasol ar gyfer y safle hwn yn cytuno y gallant wireddu amcanion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn fwy effeithiol drwy gydweithio fel GAP yn hytrach na gweithredu'n unigol. Nid oes gan y Grŵp hwn unrhyw awdurdod na phwerau statudol annibynnol ond mae'n fodd i sicrhau fod yr awdurdodau cyfrifol i gyd yn cyfrannu i'r cynllun.

11 Yr awdurdodau perthnasol sy'n perthyn i GAP SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yw:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
- Cyfoeth Naturiol Cymru [1]
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor a Dinas Abertawe
- Dŵr Cymru
- Awdurdod Harbwr Saundersfoot
- Gwasanaeth Goleudai Trinity House

12 Mae pob un yn aelod cydradd o'r GAP, er bod Trinity House yn aelod gohebol a bod Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot yn bartner distaw.

13 Mae rhai cyfrifoldebau statudol allweddol, sy'n berthnasol i reolaeth gadwraethol SME yng Nghymru, megis rheoli pysgodfeydd, wedi'u breinio mewn llywodraeth yn hytrach nag awdurdodau perthnasol. Mae gan sawl awdurdod cymwys arall hefyd rôl bwysig yn cyflawni gwaith rheoli safle hanfodol, yn cynnwys:

- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ystâd y Goron

14 Mae ymwneud a chyfraniad yr awdurdodau cymwys hyn yn dyngedfennol i lwyddiant y cynllun.

15 Mae Cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hefyd yn gyfrifol am ddarparu cyngor, sy'n cael ei alw'n *gyngor Rheoliad 35,* ynghylch yr amcanion cadwraeth i'r safle ac ynghylch gweithrediadau a allai achosi difrod neu aflonyddwch.

16 Mae'r GAP yn cytuno mai'r ffordd orau o gyflawni'i amcanion fydd drwy gyflogi swyddog i gyd-drefnu gwaith y cynllun rheoli ar ei ran a chred fod rôl tymor hir y Swyddog SME hwn yn dyngedfennol i sicrhau fod y cynllun yn parhau i gael ei weithredu.

SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin

17 Mae'r SME yn cwmpasu tri safle *Natura 2000*: Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar Moryd Byrri ac AGA Bae Caerfyrddin. Mae'r SME a'r ACA yn rhannu'r un terfyn.



Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin

18 Mae'r ardal rynglanw ar y safle wedi cael ei dynodi'n Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) yn ei chyfanrwydd.

Ardal Cadwraeth Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin (2004)

19 Mae'r ACA wedi cael ei dynodi am chwe chynefin Atodiad 1 o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a phump o nodweddion arbennig Atodiad 2:

- ***Banciau tywod sydd wedi'u gorchuddio â rhywfaint o ddŵr y môr drwy'r amser***: Cefnen Helwick a dyddodion cysylltiol.
- ***Aberoedd***: Moryd Byrri / aber afon Llwchwr a system y Tair Afon, Taf, Tywi a Gwendraeth.
- ***Cilfachau a baeau mawr bas***: Bae Caerfyrddin.
- ***Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio â dŵr y môr ar y distyll***: cynefin hynod amrywiol y ceir ynddo ystod o amodau amgylcheddol gwahanol; maent wedi'u gwasgaru

[1] ddisodli Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar 1 Ebrill 2013

ledled y *cilfachau a'r baeau mawr bas* a'r *aberoedd*.

- ***Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill sy'n cytrefu llaid a thywod***: wedi'u gwasgaru hwnt ac yma mewn ardaloedd o gynefin morydol addas.
- ***Dôl heli'r Iwerydd***: ar led yn eang yn yr aberoedd; ym Moryd Byrri y ceir yr ehangder mwyaf o forfa heli yng Nghymru.
- **Gwangen** (*Alosa fallax*), **herlyn** (*Alosa alosa*), **llysywen bendoll y môr** (*Petromyzon marinus*) a **llysywen bendoll yr afon** (*Lampetra fluviatilis*).
- **Dyfrgi Ewrasiaidd** (*Lutra lutra).*

20 Bylchog yw dosbarthiad y nodweddion cynefin ar draws y safle er eu bod yn gorgyffwrdd mewn mannau. Ceir rhagor o wybodaeth a mapiau dangosol sy'n nodi dosbarthiad y nodweddion cynefin yn nogfen *Cyngor Rheoliad 35* y Cyngor Cefn Gwlad. Mae crynodeb gwybodaeth ffurfiol a ddarparwyd i'r r Comisiwn Ewropeaidd gan y DU ar gael oddi ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur [3].

Ardal Gwarchodaeth Arbennig a safle Ramsar Moryd Byrri (1992)

21 Moryd Byrri yw'r aber pwysicaf yn gyfan gwbl yng Nghymru i adar gwlyptir sy'n gaeafu yma ac mae wedi'i ddosbarthu'n AGA i amryw o rydwyr ac adar dŵr.

22 Gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 yw safleoedd Ramsar. Mae'r dynodiad Ramsar am yr un adar â'r AGA ynghyd â phlanhigion, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, adar eraill a mamaliaid, y mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd wedi'u cynnwys yn yr ACA.

23 Mae cynefin yr AGA yn cynnwys nodweddion yr ACA, *aberoedd*, *fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio â dŵr y môr ar y distyll,* a *dolydd heli'r Iwerydd*.

Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Caerfyrddin (2003)

24 Mae Bae Caerfyrddin o bwys neilltuol yn y DU i'r fôr-hwyaden ddu (*Melanitta nigra*) fudol a'r rhai sy'n gaeafu yma. Un o nodweddion yr ACA, *cilfachau a baeau mawr bas*, yw cynefin y fôr-hwyaden.

25 Mae crynodeb ffurfiol o wybodaeth am yr AGA a ddarparwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gael oddi ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac mae'r mapiau safle AGA ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad.

Cyflwr y nodweddion dynodedig ar hyn o bryd

26 Yn ail adroddiad y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn 2007 y ceir yr asesiad ffurfiol diweddaraf o nodweddion y safle; hwn oedd yr asesiad cyntaf o statws cadwraethol cynefinoedd a rhywogaethau sydd o ddiddordeb Cymunedol [4].

27 Roedd yr asesiad yn cydnabod fod bylchau yn y wybodaeth am rai cynefinoedd a rhywogaethau a bod yr asesiad o'u cyflwr ar y pryd o reidrwydd wedi'i seilio'n rhannol ar wybodaeth am y safle a oedd yn bodoli eisoes. Serch hynny, adroddwyd fod rhai o nodweddion y safle, yn cynnwys *Aberoedd* a *Morfa heli'r Iwerydd*, yn anffafriol, ac mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu fod rhai o'r asesiadau cadarnhaol o nodweddion ar y safle yn rhy optimistaidd efallai.

28 Nid oedd yr asesiad yn cynnwys nodweddion adar AGA ond mae tystiolaeth ddiweddar, fel y duedd ar i lawr ym maint y boblogaeth piod môr a'r gostyngiad dros sawl blwyddyn yn nifer y môr-hwyaid du sy'n gaeafu, yn awgrymu fod perygl y caiff rhai o nodweddion yr AGA eu nodi fel rhai anffafriol yn y cylch adrodd nesaf.

Pwysigrwydd economaidd gymdeithasol

29 Caiff y safle ei ddefnyddio gan ystod eang o randdeiliaid ar gyfer llawer o weithgareddau amrywiol. Er enghraifft, mae twristiaeth yn cynhyrchu refeniw sylweddol i'r economi leol, mae'r safle o bwys sylweddol i'r cymunedau cyfagos o safbwynt adloniant a hamdden ac mae'n pysgodfeydd lleol o bwys. Mae iddo hefyd rôl hollbwysig yn cyfrannu at amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystemau sydd gyda'i gilydd yn darparu systemau cynnal bywyd eang sy'n hanfodol i'r ddynoliaeth.

Ceir disgrifiad manylach o'r safle yn Atodiad Technegol 1: *Y Cefndir*.

Nodau ac egwyddorion rheoli

30 Nod strategol y cynllun rheoli (Rheoliad 36, Rheoliadau Cynefinoedd) yw sefydlu a gweithredu'r mesurau cadwraeth sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd; yn benodol drwy:

- ateb gofynion Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE drwy sicrhau fod nodweddion y safle'n cael eu cynnal yn y tymor hir â *statws cadwraeth ffafriol* (SCF), fel y'i diffinnir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd [5], gan eu diogelu nhw a'u strwythurau cynefinoedd naturiol a'u swyddogaethau rhag difrod neu aflonyddwch sylweddol;
- ateb rhwymedigaethau Rheoliadau Cynefinoedd y DU;
- pennu'r fframwaith y bydd gweithgareddau sydd â chaniatâd a heb ganiatâd yn cael eu rheoli oddi mewn iddo gan awdurdodau perthnasol;

- helpu awdurdodau perthnasol i adolygu, a pharhau i adolygu, rheolaeth y safle, gan nodi newidiadau i'r rheolaeth bresennol a allai fod yn ofynnol i ateb gofynion cadwraeth;
- cynnal dan bwysau adolygu a bygythiadau o weithgareddau a reolir gan awdurdodau cymwys sydd angen eu rheoli i gyflawni FCS;
- integreiddio gweithgareddau rheoli, sicrhau cydweithredu ar weithgareddau trawsbynciol a dylanwadu'n gadarnhaol ar gynaliadwyedd amgylcheddol cynlluniau a strategaethau sectoraidd, gofodol a rhanbarthol i'r graddau y mae a wnelont â'r safle;
- darparu crynodeb o ymrwymiadau pob awdurdodau perthnasol;
- integreiddio â strategaethau perthnasol eraill;
- codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o fioamrywiaeth a phwysigrwydd cadwraethol y safle.

31 Mae'r cynllun wedi cael ei lunio fel rhaglen dreigl, tymor hir, ag amserlen o 25 mlynedd, fel a argymhellir yng nghanllawiau'r llywodraeth. Caiff ei adolygu a'i ddiwygio'n sylweddol bob chwe blynedd yn unol â chylch adrodd yr UE.

32 Mae'r cynllun yn cydnabod mor bwysig yw Bae Caerfyrddin a'i aberoedd i economïau lleol sir Gaerfyrddin, sir Benfro ac Abertawe a Gŵyr, a'r hanes hir o weithgarwch a defnydd amrywiol gan ddyn yn yr ardal. Wrth reoli'r safle i sicrhau fod yr amcanion cadwraeth yn cael eu cyflawni rhaid ymdrechu hefyd i ganiatáu ar gyfer yr ystod eang hon o weithgareddau gan darfu cyn lleied â phosib arnynt.

33 Mae'r cynllun wedi cael ei seilio ar yr egwyddorion o:

- ***Statws cadwraeth ffafriol*** **–** yn unol â *chyngor Rheoliad 35* y Cyngor Cefn Gwlad.
- ***Ffocws ar nodweddion dynodedig*** **–** yn adlewyrchu cwmpas y statws cadwraeth ffafriol a ddiffinnir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
- ***Defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael*** – mae'r cynllun yn annog cyfnewid a rhannu'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i gydweithredu effeithiol rhwng awdurdodau perthnasol a chymwys a rhanddeiliaid.
- ***Gweithredu'r egwyddor ragofalus*** **–** lle mae ansicrwydd neu ddiffyg gwybodaeth [6].
- ***Cynaliadwyedd*** – darparu fframwaith fel bod modd ymgymryd â gweithgareddau mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, ac integreiddio amcanion cymdeithasol ac economaidd ag amcanion cadwraeth y safle.
- ***Rheoli priodol ac addas i'r pwrpas*** – rheoli sydd wedi'i seilio ar fygythiad neu risg, sy'n gymesur, yn cael ei integreiddio â mesurau presennol heb ddyblygu os yw'n bosib, ac sy'n gyfunol a chydweithrediadol lle nad yw'r cyfrifoldeb am fesurau rheoli yn glir neu na ellir ei bennu.
- ***Pennu gofynion rheoli ac atebion drwy gonsensws, mewn modd gwrthrychol*** – yn deillio o asesiad gwrthrychol o'r bygythiadau a'r risgiau, gan ystyried effeithiau cronnus, wedi'u cyfuno, a dylanwadau hanesyddol a byd-eang.
- ***Monitro, adolygu a gwerthuso rheolaidd*** – i nodi a gyflawnwyd amcanion ac a gydymffurfiwyd â mesurau ac ymrwymiadau rheoli.
- ***Rheoli ymaddasol*** – adolygu'r rheoli ar sail adborth o'r monitro.
- ***Cyn lleied â phosib o reoleiddio ychwanegol*** – nodi atebion rheoli sy'n defnyddio pwerau rheoleiddio presennol lle bynnag mae hynny'n bosib ac atebion gwirfoddol lle maent yn debygol o fod yn effeithiol.
- ***Cefnogaeth gyhoeddus*** – mae i bawb sy'n ymwneud â'r safle mewn unrhyw ffordd gymryd rhan o'u gwirfodd yn bwysig i lwyddiant y cynllun rheoli.

Amcanion cadwraeth

34 Mae'r amcanion cadwraeth i'r safle hwn wedi'u nodi yn nogfen *cyngor Rheoliad 35* [7] y Cyngor Cefn Gwlad. Oherwydd fod yr amgylchedd morol mor ddynamig ac y bydd y wybodaeth am y safle a'i nodweddion yn datblygu'n barhaus, mae'r cynllun yn cydnabod y bydd gofyn adolygu a diwygio'r cyngor hwn bob amser er mwyn iddo fod yn ddilys a chyfredol.

35 Yn ôl y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae'n ofynnol dylunio mesurau i gynnal neu adfer cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwys ar lefel y Gymuned Ewropeaidd â *statws cadwraeth ffafriol* (SCF). Mynegiant penodol-i-safle o SCF yw amcanion cadwraeth ac maent yn pennu'r safonau y mae rhaid eu cyrraedd os yw'r nodweddion dynodedig i fod ag SCF; maent yn fodd i benderfynu'n rhagweithiol ar anghenion rheoli'r safle er mwyn cadw'r nodweddion, ac maent yn gosod y safon y gellir barnu yn ei herbyn pa mor briodol oedd y rheoli wrth edrych yn ôl.

36 Mae'r "cyngor ar weithrediadau a allai achosi dirywiad neu aflonyddwch" y manylir arnynt yn y *cyngor Rheoliad 35* yn nodi'r gweithgareddau hynny y cred y Cyngor Cefn Gwlad y gallent gael effaith andwyol ac a allai ddiraddio nodweddion y safle. Ceir gwybodaeth hefyd am y ffactorau a allai beri iddynt effeithio ar nodwedd a pha agweddau o'r nodwedd y gellid effeithio arnynt. Mae'n cyfrannu at nodi'r mesurau rheoli sy'n angenrheidiol i sicrhau fod nodweddion ag SCF drwy amlinellu'n fras y gweithredu sy'n debygol o fod yn ofynnol i leihau effeithiau o'r fath. Mae hefyd yn helpu i nodi cynlluniau neu brosiectau a fyddai'n

debygol o gael effaith sylweddol, y byddai angen asesiad priodol ohonynt.

Canlyniad amgylcheddol ansawdd dŵr

37 Yn dilyn yr amcanion cadwraeth, Ansawdd Dŵr Canlyniad yr Amgylchedd wedi cael ei ddatblygu: "Sicrhau nad oes risg o ewtroffigedd oherwydd lefelau uwch o faetholion yn SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, er mwyn gwireddu'r amcan tymor hir y bydd SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin â statws mesotroffig yn unol ag amcanion cadwraeth y safle."

Pwysau a bygythiadau

38 Y strategaeth y cytunodd y GAP arni er mwyn datblygu'r cynllun hwn oedd asesu'r holl bwysau a bygythiadau posib i nodweddion yn wrthrychol, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael, a llunio rhestr lawn o'r gofynion rheoli sy'n angenrheidiol i ddiogelu a chynnal y nodweddion ag SCF.

39 Mae'r gweithgareddau cyfredol a'r rhai a ragwelir, y rheolaeth arnynt ar hyn o bryd, y pwysau y mae iddynt y potensial i'w hysgogi a'r bygythiadau a'r risgiau posib y gallent eu hachosi i nodweddion y safle wedi cael eu hasesu'n systematig, yn unol â chyngor Rheoliad 35 y Cyngor Cefn Gwlad a rhestr y Gyfarwyddeb Cynefinoedd o *Effeithiau a Gweithgareddau sy'n Dylanwadu ar Statws Cadwraeth y Safle*, a nodwyd yr angen am reolaeth ychwanegol arnynt. Manylir ar yr asesiadau hyn yn Atodiad Technegol 2: *Asesiad o'r pwysau a'r bygythiadau,* ac maent yn rhan o'r sail resymegol i'r gofynion rheoli tymor hir a nodir fel rhai angenrheidiol i gynnal y safle ag SCF yn Atodiad Technegol 3: *Amcanon rheoli tymor hir a chamau gweithredu*.

40 Efallai fod gweithredu cynlluniau a phrosiectau yn creu pwysau uniongyrchol ar y safle neu'n dylanwadu ar weithgareddau cyfredol neu weithgareddau i'r dyfodol, a'r ffordd y cânt eu rheoli. Er bod prosesau statudol gwahanol ar gyfer asesu ac awdurdodi cynlluniau a phrosiectau, mewn llawer o achosion efallai y bydd cyswllt anorfod rhwng y rhain ag effeithiau gweithgareddau bob dydd. Mae'r cynllun hwn felly yn ystyried datblygiadau a chynlluniau a allai danseilio'r amcanion cadwraeth, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

41 Mae ecosystemau morol yn ddynamig yn naturiol ac yn ddarostyngedig i ddylanwadau naturiol a digwyddiadau ar hap. Nid yw'n bosib rheoli ecosystemau morol er mwyn gwireddu'r canlyniadau a ddymunir, dim ond rheoli gweithgareddau dynol y mae perygl iddynt ddiraddio neu lesteirio cyflyrau neu brosesau naturiol. Fodd bynnag, efallai nad yw'r wybodaeth fanwl sy'n ofynnol i wneud penderfyniadau cwbl wrthrychol am reolaeth ar gael; er enghraifft, gwybodaeth am ddosbarthiadau a dwyster llawer o weithgareddau dynol a faint yn union o bwysau dynol y gall yr amgylchedd morol ei oddef. Gan fod yr amgylchedd morol eisoes wedi cael ei ddiraddio, a bod hynny'n parhau, rhaid gwneud penderfyniadau i leihau'r risg neu liniaru'r canlyniadau er gwaethaf y cyfyngiadau gwybodaeth hyn.

42 Gall pwysau ar nodweddion y safle, yn arwain un ai at fygythiad o ddiraddio'r statws cadwraeth neu at ddiraddio gwirioneddol, gael eu hachosi, yn unigol neu fel cyfuniad, drwy:

- weithgareddau a gweithrediadau, ar y safle neu gerllaw iddo, sy'n ddylanwad negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol;
- dylanwadau dynol ar raddfa eang, graddfa fyd-eang o bosib;
- datblygiadau a chynlluniau;
- cynlluniau rheoli nad oes a wnelont â gofynion y safle;
- newidiadau tymor hir yn deillio o effeithiau dynol hanesyddol, ac adferiad ohonynt.

43 Mae arwyddocâd effeithiau niweidiol yn dibynnu ar hirhoedledd a graddfa'r pwysau a sensitifrwydd yr hyn yr effeithir arno. Mae pwysau amgylcheddol nad ydynt yn fygythiadau posib i nodweddion y safle y tu hwnt i gwmpas y cynllun hwn ac ni chânt eu hystyried.

44 Gall ystod eang o gynlluniau rheoli eraill, strategaethau a chynlluniau gyfrannu at, neu o leiaf ni ddylent danseilio, gwireddu SCF i'r safle a'i nodweddion. Mae rhai o'r rhain yn gynlluniau amgylcheddol ategol; mae eraill yn cynnwys cynlluniau statudol ac anstatudol at ddibenion cwbl wahanol, ond fod rhaid iddynt ystyried neu gyfrannu at wireddu amcanion cadwraeth y safle.

45 Mae'r rheolaeth gadwraethol ar nodweddion yr SME wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth gadwraethol arall, dynodiadau a gwaith rheoli, SDdGA yn arbennig, ac mae'n cyfrannu at gyflawni amcanion cadwraeth natur eraill, neu amcanion cynlluniau cadwraeth perthnasol; er enghraifft, Ardaloedd Morol Gwarchodedig OSPAR ac amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Caiff rheolaeth SME ei hystyried hefyd yn ffordd allweddol o wireddu amcanion Cynlluniau Gweithredu lleol, Cymru a'r DU ar Fioamrywiaeth.

Ceir rhagor o fanylion am y broses cynllunio rheolaeth yn Atodiad Technegol 1: Y Cefndir.

Materion allweddol

46 Ymysg y pwysau neu'r bygythiadau cyfredol y mae angen eu rheoli'n briodol, ac ymchwilio ymhellach iddynt, mae:

- lefelau pysgota rhywogaethau pysgod cregyn sy'n bwysig yn ecolegol, fel cocos, cregyn gleision a chregyn gleision had, a gwichiaid moch;
- effeithiau gweithfeydd peirianyddol caled i amddiffyn yr arfordir;
- cyfoethogi maethol ac ansawdd dŵr mewn morydau;
- casglu abwyd pwysau, yn enwedig cloddio am fwydod morol;
- gwaredu gwastraff a malurion;
- llygredd gwasgaredig, ar raddfa dalgylchoedd a dŵr ffo amaethyddol;
- datblygu arfordirol a phwysau yn sgil hynny ar y safle;
- gorbori ar forfeydd heli;
- cychod pŵer cyflym;
- diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth neu ddiddordeb ymysg y cyhoedd.

47 Mae'r safle yn wynebu risg bosib o du gweithgareddau sydd un ai ddim yn digwydd ar hyn o bryd neu ddim ond yn digwydd ar raddfa fach, ond fod potensial iddynt gael eu cyflwyno neu'u hehangu, megis:

- meithrin cregyn gleision molysgaidd;
- echdynnu agregau;
- hawlio tir, yn enwedig morfeydd heli, a datblygu heb ei reoleiddio ar flaendraethau;
- treillio danheddog a hydrolig am bysgod cregyn, a chasglu pysgod cregyn drwy ddulliau mecanyddol eraill;
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

48 Gallai rhai gweithgareddau fod yn effeithio'n andwyol ar nodweddion ond nid oes digon o wybodaeth i wneud asesiadau hyderus. Mae angen mwy o wybodaeth am ddosbarthiad, amseriad a dwyster llawer o weithgareddau a phwysau, ond ymysg y materion y credir fod angen gweithredu arnynt fel blaenoriaeth i ehangu'r sylfaen gwybodaeth mae:

- pob math o weithgarwch pysgota masnachol a chasglu masnachol ar rywogaethau rhynglanw;
- gweithgarwch milwrol;
- pysgota môr fel gweithgaredd hamdden;
- prosesu pysgod cregyn;
- casglu abwyd o bob math;
- effaith pwysau lleol yn deillio o aneddiadau arfordirol;
- chwaraeon dŵr a chychod cyflym hamdden;
- saethu/hela adar dŵr;
- gwaredu sbwriel nas rheoleiddir, yn enwedig gwastraff anorganig a malurion;
- cynnal a chadw cychod;
- amddiffyn arfordirol a hawlio tir nas reoleiddir;
- gwylio bywyd gwyllt y môr ac 'eco-dwristiaeth'.

49 Yn ychwanegol at weithgareddau sy'n creu pwysau neu fygythiadau uniongyrchol, mae llawer o bwysau dynol lleol a byd-eang eraill yn berthnasol i gyflwr nodweddion y safle ac mae gofyn eu hystyried wrth gynllunio'n strategol a rhoi caniatâd, megis:

- gwasgfa arfordirol, er enghraifft rheilffyrdd arfordirol sy'n cael eu hamddiffyn yn gweithredu fel amddiffynfeydd arfordirol ac yn atal cynefinoedd arfordirol rhag ymledu i'r tir;
- y capasiti rheoli pysgodfeydd;
- digwyddiadau màs-farwolaethau molysgiaid (cocos);
- metelau trwm gweddilliol o ddiwydiant a phyllau glo segur yn nalgylchoedd yr aberoedd;
- effeithiau newid yn yr hinsawdd (tymheredd, asideiddio, lefel y môr yn codi, tywydd stormus).

Manylir ar y broses asesu a'r asesiadau o effeithiau gweithgareddau ar nodweddion yn Atodiad Technegol 2. Mae'r 'asesiadau risg' hyn hefyd yn nodi ble mae camau rheoli'n debygol o fod yn ofynnol a, lle mae hynny'n briodol, natur y gweithredu hwnnw. Nid oedd y rhestr gweithgareddau a gweithrediadau a ystyriwyd o reidrwydd yn hollgynhwysol na diffiniol; efallai fod rhai wedi cael eu hanwybyddu ac mae'n dra phosib y cyfyd eraill yn y dyfodol ac y bydd angen eu hystyried. Bydd y rhestr a'r asesiad o effeithiau posib yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu'r defnydd cyfredol o'r safle a gwybodaeth newydd fel y bydd ar gael.

Monitro, adolygu a chyflwyno adroddiadau

50 Mae rheoli'r SME yn dasg ddynamig, tymor hir, a bydd ei heffeithiolrwydd yn gwella drwy weithredu mewn ffordd ymaddasol – dysgu o lwyddiant a methiant, ac addasu'r rheolaeth yn unol â hynny. Mae casglu gwybodaeth berthnasol a'i hasesu'n feirniadol yn rhaganghenraid ar gyfer rheoli addasol. Mae hyn yn golygu y bydd angen monitro neu oruchwylio effeithiol ar:

- gyflwr nodweddion a'r elfennau sy'n achosi diraddio neu sy'n fygythiad;
- dosbarthiad a dwyster gweithgareddau sy'n creu pwysau;
- a yw'r mesurau rheoli y cytunwyd arnynt wedi'u sefydlu, yn cael eu gweithredu, yn gweithio fel y bwriadwyd ac yn effeithiol;
- effeithiolrwydd rheoli gan awdurdodau cymwys;
- a oes cydymffurfiaeth â mesurau rheoli, amodau caniatadau a deddfwriaeth berthnasol arall;
- gweithgareddau neu fesurau sy'n disgyn y tu allan i gylch gwaith yr awdurdodau perthnasol;
- effeithiolrwydd y cynllun hwn.

51 Bydd y cynllun rheoli'n cael ei adolygu'n llawn bob chwe blynedd, yn unol â chylch adrodd chwe blynedd *Natura 2000* yr Undeb Ewropeaidd, i asesu effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun o ran mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion a'r gweithgareddau sy'n effeithio ar statws cadwraeth nodweddion yr SME. Bydd y mesurau rheoli tymor hir a'r camau gweithredu yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd yr adolygiadau hyn yn ystyried y penderfyniadau ynglŷn â pha mor dda y mae'r amcanion cadwraeth yn cael eu cyflawni a gwybodaeth o ffynonellau eraill sy'n dangos a oes angen newid y gofynion rheoli a nodwyd ac, os felly, sut.

52 Mae'r awdurdodau perthnasol, fel y cyrff sydd â chyfrifoldeb statudol i baratoi a gweithredu'r cynllun, yn rhannu'r cyfrifoldeb i'w adolygu a'i ddiwygio ac mae ganddynt gyfrifoldeb unigol i adolygu'r mesurau y maen nhw'n eu cyfrannu.

53 Mae llunio adroddiadau ar sut y caiff y safle'i reoli yn rhan annatod o'r broses fonitro. I ddangos cydymffurfiaeth â gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, bydd adroddiadau cynnydd blynyddol yn cael eu llunio gan y GAP i'w cyflwyno i'r rhiant awdurdodau, Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau cymwys, rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Bydd yr adroddiadau hyn yn cyfrannu hefyd at yr adroddiadau sy'n ofynnol ar lefel y DU bob chwe blynedd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar y mesurau a weithredwyd o dan y Gyfarwyddeb a statws cadwraeth nodweddion yr SME.

54 Er bod pob un o'r awdurdodau statudol yn gyfrifol am fonitro, adolygu a llunio'r adroddiadau gofynnol am y rheoli a'r materion y maen nhw'n gyfrifol amdanynt, bydd y GAP, drwy'i Swyddog SME, yn cyd-drefnu'r tasgau cydweithredol. Bydd y rhain yn cynnwys casglu gwybodaeth am fonitro cydymffurfiaeth o dan y cynllun oddi wrth bob un o'r awdurdodau cyfrifol, a chynnwys y wybodaeth hon yn yr adroddiadau cynnydd blynyddol.

Trosolwg rheoli

55 Yn sgil asesu'r pwysau a'r bygythiadau a ddisgrifiwyd uchod roedd modd nodi amcanion rheoli tymor hir sy'n disgrifio'r canlyniadau a ystyrir yn angenrheidiol i helpu i wireddu amcanion cadwraeth y safle, ynghyd â nifer o gamau gweithredu lefel uchel er mwyn eu cyflawni.

56 Caiff yr amcanion tymor hir manwl hyn a'r camau gweithredu strategol eu disgrifio yn Atodiad Technegol 3. Nid ydynt yn rhagnodol ond nodi lle mae camau penodol unigol gan awdurdodau cyfrifol yn angenrheidiol a lle mae angen cyngor ar reoli cadwraeth i gael ei ddarparu gan CNC.

57 Mae angen camau rheoli er mwyn:

- dileu neu leihau pwysau ar nodweddion y safle;
- casglu ac asesu rhagor o wybodaeth am bwysau a bygythiadau hysbys a phosib;
- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylcheddol y safle a'i anghenion rheoli ymysg y cyhoedd, rhanddeiliaid, gwneuthurwyr polisi a rheolwyr, i annog ymdrin mewn ffordd gynaliadwy â defnyddio'r safle.

58 Mae angen i lawer o'r camau gweithredu fod yn draws-sectoraidd neu gynnwys mwy nag un awdurdod cyfrifol a byddant yn elwa o gael eu gweithredu drwy bartneriaeth; er enghraifft, bydd cydweithredu integredig yn hanfodol er mwyn codi a chynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r safle a'r rheolaeth arno ymysg gwneuthurwyr polisi, rheolwyr arfordirol a rhanddeiliaid.

59 Er bod y prosesau i awdurdodi cynlluniau a phrosiectau'n wahanol i'r drefn o reoli gweithredu ar hyn o bryd ac i'r dyfodol, gallai gweithrediadau y rhoddwyd caniatâd iddynt effeithio'n uniongyrchol ar y safle a chaniatáu gweithgareddau ôl-ddilynol y bydd angen rheolaeth newydd neu ychwanegol arnynt. Er bod angen i'r asesu ar gynlluniau a phrosiectau (*Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - ARC*) ystyried y gweithgareddau presennol a gweithgareddau sy'n debygol yn sgil caniatáu prosiectau neu weithredu cynlluniau, mae'r cynllun hwn hefyd yn ystyried datblygiadau a'u cynlluniau a'u gweithgareddau ôl-ddilynol tebygol a'r angen yn sgil hynny am reolaeth ddilynol.

60 Mae llawer o strategaethau, cynlluniau a mentrau rheoli presennol yn cyfrannu at amddiffyn nodweddion y safle. Lle mae hynny'n briodol, cael y rhain eu nodi er mwyn amlygu'r cysylltiadau perthnasol, eu gwreiddio yn y cynllun hwn, osgoi dyblygu a nodi'r angen iddynt ystyried y safle yn benodol.

61 Nid yw'r cynllun hwn yn ceisio dweud wrth awdurdodau cyfrifol unigol pa gamau gweithredu penodol sy'n angenrheidiol i wireddu'r amcanion tymor hir, na sut y dylid rhoi'r camau hynny ar waith. Mae pob awdurdod yn gyfrifol am nodi mesurau penodol, ac am adrodd ar weithrediad ac effeithiolrwydd y mesurau hynny.

62 Nid yw nodi mesurau rheoli i sicrhau fod y safle â statws cadwraeth ffafriol (SCF) yn awgrymu y bydd yn hawdd rhoi'r camau gweithredu angenrheidiol ar waith nac y bydd adnoddau digonol, mecanweithiau cyfreithiol neu fandadau ar gael i allu gweithredu.

63 Y ffordd orau o leihau neu ddileu'r pwysau ar nodweddion y safle a'r bygythiadau iddynt a diogelu'r safle ar SCF yw drwy'r mesurau rheoli isod:

STRATEGOL

- rhoi sylw i amcanion cadwraeth y safle ym mhob cynllun a pholisi datblygu strategol a gofodol perthnasol a chynlluniau a rhaglenni rheoli;
- adolygu pob cynllun, polisi a rhaglen o'r fath yn barhaus i roi sylw i faterion sy'n dod i'r amlwg, gwybodaeth newydd neu well gwybodaeth am fylchau neu ddiffygion rheoli a mesurau angenrheidiol ychwanegol, ac adborth o fonitro;
- sicrhau fod cynlluniau, polisïau a strategaethau datblygu a gofodol yn amddiffyn gorlifdiroedd morydol ac ymylon arfordirol (sydd heb eu datblygu) rhag datblygu fel y gall newid naturiol ac esblygu morydol ddigwydd yn ddirwystr;
- sicrhau fod yr arferion amgylcheddol gorau perthnasol yn cael eu gwreiddio ym mhob cynllun rheoli perthnasol a bod ymatebion i bwysau amgylcheddol yn cael eu cynllunio'n strategol fel nad yw'r pwysau ar nodweddion y safle neu'r bygythiadau iddynt yn dwysáu ymhellach;
- cyfrannu at gynlluniau rheoli eraill sy'n gefnogol i gynnal y safle ar SFC, *e.e.* Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth a Chynllunio Gofodol Morol;
- sicrhau fod cydweithredu rhwng awdurdodau perthnasol a chymwys yn integreiddio rheolaeth draws-sectoraidd a rhannu adnoddau, ac yn sicrhau'r seilwaith a'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cynnal fforwm cydweithredol y GAP a gweithrediad y cynllun hwn yn y tymor hir;

CODI YMWYBYDDIAETH, YMGYSYLLTU A DYLANWADU

- sicrhau ymwybyddiaeth lefel uchel o'r safle a'i ofynion rheoli ymysg gwneuthurwyr strategaeth a pholisi, cynllunwyr, rheolwyr gweithredol a hyrwyddwyr twristiaeth a hamdden
- sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r SME a'r rheolaeth arni ymysg y cyhoedd a rhanddeiliaid, fel sy'n briodol i annog ymgysylltu ac i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad cyhoeddus;
- rhannu a llunio adroddiadau ar wybodaeth reoli a monitro fel mater o drefn rhwng awdurdodau cyfrifol fel sail i gynllunio ac adolygu'r rheoli, ARCs ac asesiadau SCF, gan gyflwyno adroddiadau'n rheolaidd a rhoi gwybodaeth fonitro ac asesu gerbron y cyhoedd i sicrhau fod y drefn mor dryloyw â phosib;

CYDSYNIO (pob cydsyniad, caniatâd neu hawlen)

- cynnal ARC priodol, o bob cais am gydsyniad, gan ystyried amcanion cadwraeth y safle a chanlyniadau gweithredol posib datblygiadau a chynlluniau a'u goblygiadau cynnal a chadw, a dilyn yr arferion gorau o ran ymgynghoriadau ARC, gan gynnwys cyswllt cynnar a phriodol â'r Cyngor Cefn Gwlad i sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i amcanion cadwraeth y safle
- sicrhau, pan roddir caniatâd i gynlluniau neu brosiectau, fod yr amodau ar y caniatâd yn cynnwys, fel sy'n briodol:
  - gynlluniau rheoli gorfodadwy,
  - darpariaethau i sicrhau fod monitro ar gydymffurfio â chynlluniau o'r fath,
  - darpariaethau adborth rheoli ynghlwm wrth y monitro fel bod modd rheoli drwy ddull ymaddasol,
  - monitro amgylcheddol priodol ar weithrediadau sydd wedi cael caniatâd a gweithrediadau ôl-ddilynol;

RHEOLI SY'N BENODOL I SECTORAU

- rhoi sylw llawn i amcanion rheoli'r safle wrth reoli'r holl weithgareddau sectoraidd:
  - rheoli a chynnal a chadw strwythurau peirianneg sifil arfordirol, morol neu ar y blaendraeth,
  - gweithrediadau a gweithgareddau gwaredu elifion a gwastraff, yn cynnwys gwaredu gwastraff yn deillio o gynnal a chadw cychod a gweithgarwch cychod,
  - dal a gwaredu dŵr wyneb,
  - llygredd gwasgaredig a mewnbwn maetholion,
  - datblygu adnoddau byw ac anfyw – effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol – yn cynnwys: pysgodfeydd a physgodfeydd cregyn, casglu abwyd, echdynnu agregau a chynhyrchu ynni adnewyddadwy,
  - gweithrediadau dyframaethu o fewn a gerllaw'r safle a rheoli dyframaethu,
  - gweithrediadau milwrol,
  - adloniant, twristiaeth a hamddena anffurfiol;
- sicrhau fod sylw'n cael ei roi i amcanion cadwraeth wrth hyrwyddo twristiaeth a'i fod yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o'r safle a'r ffordd y mae'n cael ei reoli er budd cadwraeth;
- bod sylw'n cael ei roi i amcanion cadwraeth wrth reoli mynediad dros y blaendraeth wrth ymgymryd â gweithgareddau sectoraidd;

CAFFAEL A RHANNU GWYBODAETH

- cael gafael ar ddata a gwybodaeth berthnasol, safonol, yn amserol a'u rhannu, yn y meysydd hyn:
  - gweithrediadau a gweithgareddau,
  - dosbarthiad ansoddol a meintiol nodweddion y safle a'u cyflwr,
  - prosesau a chyflyrau amgylcheddol perthnasol,
  - cydymffurfio â mesurau rheoli;
- rhannu pob gwybodaeth berthnasol am ddatblygiadau, cynlluniau a phrosiectau y mae angen ARC arnynt ymysg yr awdurdodau cyfrifol i fod yn sail gadarn i benderfyniadau ac er mwyn defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosib;
- rhannu gyda'r GAP, mewn modd amserol, ddata monitro ac arolygu am weithgareddau sydd â chaniatâd, a gwybodaeth am gydymffurfio ag amodau caniatadau a mesurau lliniaru perthnasol a'u cyflwyno gerbron y cyhoedd i sicrhau tryloywder;
- datblygu gwybodaeth yn barhaus am y rhyngweithio rhwng gweithgareddau a nodweddion safleoedd i wella'r ddealltwriaeth o'r pwysau posib ar nodweddion a'r bygythiadau iddynt, yn cynnwys sicrhau'r ddealltwriaeth orau posib o amodau ffafriol er lles ansawdd dŵr a statws maetholion yn aberoedd y safle;
- sicrhau fod y wybodaeth a'r sylfaen tystiolaeth am nodweddion y safle yn cael eu lledaenu'n eang ac yn cael eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau rheoli a chynnal ARCs;

MONITRO A GORUCHWYLIO

- bod y monitro ar gyflwr nodweddion y safle a gweithrediad ecosystemau yn ddigonol i ganfod tueddiadau ac i fod yn sail i asesu pwysau;
- bod y goruchwylio ar weithgareddau, yn cynnwys gweithgareddau nas rheoleiddir, a'r rhyngweithio rhyngddynt â nodweddion y safle yn ddigonol i ganfod effeithiau andwyol ac i fod yn sail i reoli ymaddasol;
- sicrhau fod y monitro ar weithrediadau â chaniatâd yn addas i'r pwrpas yng nghyd-destun amcanion cadwraeth y safle a bod cysylltiad rhyngddo â gorfodi amodau caniatadau;
- monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd cynllun rheoli'r safle, yn cynnwys cymhwyso mesurau rheoli, cydymffurfio â nhw a pha mor effeithiol ydynt;

CYDYMFFURFIO A GORFODI

- gorfodi mesurau rheoli sectoraidd a chydymffurfiaeth ag amodau caniatadau a mesurau lliniaru yn drylwyr, yn cynnwys cynnal trosolwg manwl o'r hunanfonitro gan ddeiliaid caniatâd;
- monitro dyfroedd arfordirol ac ymylon a dalgylchoedd am weithrediadau heb ganiatâd neu weithrediadau nas rheoleiddir sy'n creu risg neu sy'n fygythiad i nodweddion y safle, a gorfodi neu gyflwyno mesurau rheoli fel sy'n briodol;
- rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r awdurdod cyfrifol priodol a'r GAP am achosion o beidio â chydymffurfio â mesurau rheoli neu amodau caniatâd neu o weithredu'n groes i ddeddfwriaeth;

ADOLYGU A CHYFLWYNO ADRODDIADAU

- adolygu, yn amserol a rheolaidd;
  - weithrediad ac effeithiolrwydd y cynllun hwn, gan roi sylw i gyflwr nodweddion y safle, y pwysau a'r bygythiadau i nodweddion sy'n esblygu a pha wybodaeth newydd sydd ar gael, ac adolygu'r cynllun fel sy'n briodol,
  - mesurau rheoli sy'n cyfrannu at y cynllun, yn cynnwys hunanadolygu'r gweithredu ac adolygu cydymffurfiad, a diwygio'r gweithdrefnau neu'r mesurau yn ôl y gofyn,
  - rhaglenni monitro a goruchwylio amgylcheddol a gweithredol i sicrhau eu bod yn darparu data priodol yn sail i'r rheolaeth ar y safle;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd, amserol a phriodol i'r awdurdodau statudol, Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a'r cyhoedd:
  - ar gyflwr a statws cadwraeth nodweddion y safle i'r awdurdodau cyfrifol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd,
  - ar weithrediad y cynllun hwn a'r mesurau a'u heffeithiolrwydd.

***Disgrifir yr amcanion rheoli a'r camau gweithredu manwl yn Atodiad Technegol 3:* Amcanion rheoli tymor hir a chamau gweithredu.**

Gwybodaeth bellach – yr atodiadau technegol

Atodiad Technegol 1 Y cefndir: y cyd-destun deddfwriaethol; disgrifiad o'r safle; amcanion cadwraeth; y broses o gynllunio'r rheolaeth; monitro, adolygu a chyflwyno adroddiadau.

Atodiad Technegol 2 Asesiad o'r pwysau a'r bygythiadau

Atodiad Technegol 3 Amcanion rheoli tymor hir a chamau gweithredu

Atodiad Technegol 4 Llyfryddiaeth

Nodiadau

[1] Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd).

Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar Gadwraeth Adar Gwyllt (y Gyfarwyddeb Adar), yn darparu ar gyfer nodi a dosbarthu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yng nghyswllt rhywogaethau prin neu agored i niwed sydd wedi'u rhestru yn Atodiad I o'r Gyfarwyddeb, yn ogystal ag yng nghyswllt rhywogaethau mudol sy'n ymddangos yn rheolaidd, gan roi sylw arbennig i amddiffyn gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol.

Caiff y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ei throsi'n gyfraith yn y DU drwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, ac ati) 2010 (y Rheoliadau Cynefinoedd).

[2] Confensiwn OSPAR 1972 yw'r offeryn cyfreithiol sy'n arwain cydweithredu rhyngwladol ar hyn o bryd er amddiffyn yr amgylcheddol morol yng ngogledd-ddwyrain Môr Iwerydd. Mae'r partïon sy'n rhan ohono yn ymrwymo i sefydlu a rheoli cyfres, gydlynol yn ecolegol, o Ardaloedd Morol Gwarchodedig erbyn 2010. Nod Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol 2008 (MSFD) yw sicrhau neu gynnal 'statws amgylcheddol da' (GES) i foroedd Ewrop erbyn 2020 fan hwyraf. Mae'n cyfeirio'n arbennig at fecanweithiau'r ardaloedd morol gwarchodedig fel arf i gyfrannu at wireddu GES.

[3] Y disgrifiad ffurfiol o Fae ac Aberoedd Caerfyrddin / Carmarthen Bay and Estuaries: http://www.jncc.gov.uk/protectedsites/sacselection/sac.asp?eucode=uk0020020

[4] Ail Adroddiad y DU ar Weithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd; ar gael oddi ar wefan JNCC: http://jncc.defra.gov.uk/article17/

[5] Caiff statws cadwraeth ffafriol (SFC) ei ddiffinio yn Erthygl 1 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac mae'n cynnwys sefydlogrwydd yr amrediad, arwynebedd, strwythur a swyddogaeth cynefinoedd a dichonoldeb tymor hir eu rhywogaethau nodweddiadol; o ran rhywogaethau, eu hamrediad, maint y boblogaeth ohonynt a dichonoldeb tymor hir eu cynefin; ac o ran cynefinoedd a rhywogaethau, y rhagolygon tymor hir i'r mesurau hyn i gyd, yn cynnwys bygythiadau.

[6] *Managing Natura 2000 sites: the provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/CEE* y Comisiwn Ewropeaidd, Brwsel, 2000; *European Marine Sites in England & Wales. A Guide to the Conservation (Natural Habitats &c) Regulations 1994 and to the Preparation and Application of Management Scheme;* DETR / Swyddfa Cymru, HMSO, 1998; *Nature and biodiversity cases ruling of the European Court of Justice*. y Comisiwn Ewropeaidd, 2006.

[7] Gellir llwytho cyngor Rheoliad 35 i lawr oddi ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad yma: http://tinyurl.com/3tq5vzz